# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

# 7 Chwefror 2020

# Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru

1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

**Cadeirydd:** **Llyr Gruffydd AC**

**Is-gadeirydd(ion):** **Mark Isherwood AC ac Ann Jones AC**

**Aelodau:**
**(Gwahoddir yr Aelodau a ganlyn i bob cyfarfod)**
**Siân Gwenllian, Rhun ap Iorwerth, Janet Finch-Saunders, Darren Millar, Hannah Blythyn, Jack Sargeant, Lesley Griffiths, Ken Skates, Dafydd Elis Thomas, Mandy Jones, Michelle Brown**

**Ysgrifennydd: Stephen Jones, Cydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

***Noder** Anfonir gwahoddiadau i Gyfarfodydd y Grŵp hefyd at Aelodau Seneddol ac Arweinwyr Cyngor yn y Gogledd pan fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru. Mae gwahoddiadau i gyfarfodydd yng Nghaerdydd wedi'u cyfyngu i Aelodau Cynulliad a Siaradwyr, oherwydd y teithio.*

**Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi ar gyfer 2020/21**

**Cadeirydd: Llyr Gruffydd AC**

**Is-gadeirydd: Mark Isherwood**

(Gwahoddwyd Aelodau Cynulliad Llafur yng Ngogledd Cymru i enwebu Is-gadeirydd)

**Ysgrifennydd: Stephen Jones, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**Mae'r aelodaeth yn aros fel yr oedd yn 2019/20.**

2. **Cyfarfodydd y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf.**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf ar 15 Chwefror 2019. Roedd costau Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019 a’r trafodion wedi’u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2018/19.

DRAFT

## Cyfarfod 1.

***Dyddiad y cyfarfod:*** **10 Mai 2019 – Sesiwn friffio ar HS2 a'r Hwb Crewe Arfaethedig**

**(Lleoliad: Ysgol Fusnes Coleg Cambria, Llaneurgain, Sir y Fflint)**

***Yn bresennol:***
Aelodau'r Cynulliad:

Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Sian Gwenllian AC, Michelle Brown AC, Frances Taylor (swyddfa Rhun ap Iorwerth AC), a Jason McLellan (Swyddfa Ann Jones AC)

Partneriaid (Grŵp Hollbleidiol San Steffan (APPG), Cynghorau ac Arweinwyr Busnes)

David Hanson AS a Mark Tami AS (Grŵp Hollbleidiol San Steffan Merswy Dyfrdwy a Gogledd Cymru).

Cyngh. Dyfrig Siencyn (Arweinydd, Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd, Cyngor Sir y Fflint)

Ruth Wojtan, (Rheolwr Rhaglen, Growth Track 360 (GT360), Stephen Jones (CLlLC) Ysgrifennydd a chynrychiolydd y Noddwr hefyd yn bresennol.

Siaradwyr:

Leo Warren a Jennifer Singleton (Adran Drafnidiaeth), Calum Taylor (Swyddfa Cymru), Dewi Rowlands (LlC), Sasha Davies, (Cadeirydd Grŵp Cyflenwi Busnes Gogledd Cymru) ac Ashley Rogers (Cadeirydd, Cyngor Busnes Dyfrdwy Gogledd Cymru)

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**
Cafwyd gwybodaeth am waith Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU i werthuso pa mor hyfyw fyddai Gorsaf Hwb well ar gyfer HS2 yn Crewe. Mae Gorsaf Hwb Crewe ar gyfer HS2 yn hanfodol i ddod â buddion yn sgîl HS2 i Ogledd Cymru. Clywyd yn y cyfarfod fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn barod iawn i uwchraddio cynlluniau ar gyfer Gorsaf Crewe i ganiatáu i ragor o wasanaethau HS2 stopio yno, ac i wella cysylltedd wedi'i gynllunio rhwng Gwasanaethau Gogledd Cymru a Gwasanaethau HS2.

Cafwyd cyflwyniad gan Sasha Davies, Cadeirydd Grŵp Cyflenwi Busnes Gogledd Cymru ar rôl y Grŵp a'i berthynas â Bargen dwf Gogledd Cymru. Fel rhan o'r eitem hon rhoddodd Sasha Davies, y Cyngh. Dyfrig Siencyn ac Ashley Rogers y wybodaeth ddiweddaraf am hynt Bargen Gogledd Cymru.

Rhoddodd Ashley Rogers gyflwyniad ar Fonitor Busnes Cyngor Busnes Dyfrdwy Merswy Gogledd Cymru sy’n dwyn ynghyd gyfres o ddangosyddion iechyd busnes ar gyfer ardal ddaearyddol Gogledd Cymru Dyfrdwy Merswy.

DRAFT

**Cyfarfod 2.**

***Dyddiad cyfarfod:*** **7 Mehefin 2019 - Sesiwn Friffio ar Gynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) o ran dod allan o Fesurau Arbennig. Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghanolfan Optig Glyndŵr, Parc Busnes Llanelwy, Sir Ddinbych.**

***Yn bresennol:***

Aelodau'r Cynulliad:
Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Sian Gwenllian AC, Darren Millar AC, Janet Finch Saunders AC, Mark Isherwood AC, Rhun ap Iorwerth AC, Ann Jones AC, Jason McLellan (Swyddfa Ann Jones AC), Guto Davies (Swyddfa Jack Sergeant), Julia

Partneriaid (Grŵp Hollbleidiol San Steffan (APPG), Cynghorau ac Arweinwyr Busnes)

Mark Tami AS ac Ian Lucas AS, Catherine (Swyddfa Ian Lucas) a Katie (Swyddfa Chris Ruane) (Grŵp Hollbleidiol Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy) San Steffan)

Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn), y Cynghorydd Sam Rowlands (Arweinydd, Cyngor Conwy) a'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Dirprwy Arweinydd, Cyngor Sir Ddinbych, ar ran y Cyng. Hugh Evans)

Stephen Jones (CLlLC) Ysgrifennydd a chynrychiolydd y Noddwr hefyd yn bresennol.

Siaradwyr: Mark Polin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gary Doherty, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**
Cafwyd diweddariad gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd ar y cynnydd a wnaed i ddod â'r Bwrdd Iechyd allan o "fesurau arbennig" Llywodraeth Cymru. Cododd Aelodau'r Cynulliad faterion a oedd yn eu pryderu a chawsant ymatebion gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Cyfarfod 3.**

***Dyddiad y cyfarfod:*** **18 Mehefin 2019 - Briff gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gyllid Llywodraeth Leol a Diwygio Llywodraeth Leol. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd**

DRAFT

***<u>Yn bresennol:</u>***
Aelodau'r Cynulliad

Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Sian Gwenllian AC, Darren Millar AC, Mark Isherwood AC, Rhun ap Iorwerth AC, Mandy Jones AC

Stephen Jones (CLlLC) Ysgrifennydd a chynrychiolydd y Noddwr hefyd yn bresennol.

<u>Siaradwyr:</u> Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, CLlLC, Jon Rae, Cyfarwyddwr Cyllid, CLlLC ac Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**
Cafwyd sesiwn friffio yn y cyfarfod ar Gyllid Llywodraeth Leol a Diwygio Llywodraeth Leol. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau gan gyfeirio'n benodol at y Fformiwla ar gyfer dosbarthu Grant Cymorth Refeniw i Gynghorau.

Cafwyd diweddariad byr gan Iwan Prys Jones ar hynt Bargen Twf Gogledd Cymru.

**<u>Cyfarfod 4.</u>**

***<u>Dyddiad y cyfarfod:</u>*** **7 Chwefror 2020 – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020/21 a Chyfarfod ar Thema Trafnidiaeth a gynhaliwyd ym mhorthladd Caergybi, Ynys Môn**

***Yn bresennol:***
Llyr Gruffydd AC (cadeirydd), Sian Gwenllian AC, Rhun ap Iorwerth AC, Hywel Williams AS, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, y Cynghorydd Llinos Medi Huws, y Cynghorydd Ian Roberts, y Cynghorydd Sam Rowlands.

Stephen Jones (CLlLC) Ysgrifennydd a chynrychiolydd y Noddwr hefyd yn bresennol.

<u>Siaradwyr:</u> Wyn Parry, Stena Line, Dewi Rowlands, Llywodraeth Cymru, Lee Robinson, Trafnidiaeth Cymru, William Calderbank, Stena Line a Lowri Joyce, Trafnidiaeth Cymru hefyd yn bresennol.

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

Yn y cyfarfod clywyd am:

- Y cynlluniau i ailddatblygu ac ehangu Porthladd Caergybi
- Heriau a chynnydd Trafnidiaeth Cymru wrth gyflawni ymrwymiadau'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd yng Ngogledd Cymru

- Cynlluniau i ddatblygu Metro Gogledd Cymru ac i wella gwasanaethau bysiau
- Blaenoriaethau a bwriadau Llywodraeth Cymru o ran trafnidiaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol
- Barn SAIL ar ffynonellau cyflogaeth amgen a datblygiad y diwydiant niwclear yng Ngogledd Cymru.

DRAFT

**3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

Nid oedd y Grŵp wedi cwrdd ag unrhyw lobïwyr proffesiynol. Cyfarfu'r Grŵp â chynrychiolwyr:

- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Grŵp Cyflenwi Busnes Gogledd Cymru (sy'n cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru)
- Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy
- Tasglu Rheilffordd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy (Growth Track 360)
- Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy
- Trafnidiaeth Cymru
- Arweinwyr Cynghorau awdurdodau lleol Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Stena Line
- SAIL (Grŵp cymunedol sy'n eiriol dros fodel gwahanol o ddatblygiad economaidd sy'n deillio o'r ymgyrch PAWB yn erbyn Wylfa B)

DRAFT

DRAFT

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

## 7 Chwefror 2020

## Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru

### Llyr Gruffydd AC

### Stephen Jones, Cydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall.** | a) Cyfieithu dogfennau'r Grŵp i'r Gymraeg, a gomisiynwyd gan CLlC a thalwyd am y gwaith ganddo.<br>b) Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yng Ngogledd Cymru, a gomisiynwyd gan CLlC a thalwyd am y gwaith ganddo. | £TBC<br>£400<br>£640<br>Cyfanswm: £1040 |

| Gwasanaethau a ddarperir i'r Grŵp, fel lletygarwch. Talwyd am yr holl luniaeth a llogi'r ystafell gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (£ i'w gadarnhau) | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 10 Mai 2019<br>(Coleg Cambria) | (Coleg Cambria<br>(Arlwyo yn Unig, llogi ystafell am ddim) | 215.52 |
| 7 Mehefin 2019<br>(Optic Glyndwr, Llanelwy) | Arlwyo a Llogi Ystafell | £250.00 |
| 18 Mehefin 2019<br>Tŷ Hywel | Arlwywyr y Cynulliad (Arlwyo yn Unig, llogi ystafell am ddim) | £140.88 |
| 7 Chwefror 2020 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol<br>(Stena House, Llanelwy) | Arlwyo a Llogi Ystafell | £0.00<br>Darparwyd gwasanaethau am ddim |
| **Cyfanswm y Gost am Gyfieithu, Llogi Ystafell ac Arlwyo** | | **£1,646.40** |

DRAFT